# 10. Ymchwiliad i Ddulliau Gweithredu Lleol ar gyfer Lleihau Tlodi: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

## Ymateb Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

1. **Archwiliwch sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn targedu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru**

   Ar y cam datblygu hwn mae'r Cynllun Lles yn targedu gwelliannau ar lefel sirol. Mae gwaith manylach yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygiad y cynllun hwn.

2. **a. Asesu ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth ddatblygu cynlluniau llesiant lleol o ran anghenion a phrofiadau pobl sy’n byw mewn tlodi**

   Mae partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio gyda’i gilydd i ddatblygu Asesiad Lles ar gyfer yr ardal, sydd ar gael ar-lein yma. Rydym ni wedi cymryd y dull gweithredu ar y cyd hwn er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cael ei greu yn defnyddio arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

   Mae’r asesiad yn ceisio tynnu sylw at gryfderau pobl a chymunedau. Mae hefyd yn ceisio disgrifio’r heriau a’r cyfleoedd sydd yn ein hwynebu heddiw ac i’r dyfodol. Cafodd yr Asesiad Lles ei greu yn defnyddio data, ymchwil cenedlaethol a lleol ac adborth yn dilyn ymgysylltu.

   Ceir pennod yn yr Asesiad Lles sy’n edrych yn benodol ar fynd i’r afael â thlodi ac amddifadedd - http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/home/english-wellbeing-assessment/english-poverty-and-deprivation/

   **b. Sut y mae byrddau gwasanaethau lleol yn gweithredu o ran diflaniad sy’n nesáu Cymunedau yn Gyntaf**

   Bu i arweinwyr Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych fynychu cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2017 i ddarparu diweddariad ar y trefniadau pontio o Gymunedau yn Gyntaf i raglen gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru. Cafwyd trafodaethau cychwynnol hefyd ar y prosiectau etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf arfaethedig ar gyfer mis Ebrill 2018 ymlaen.

   Mae’r Bwrdd wedi gofyn am gael derbyn gwybodaeth am y trefniadau pontio.

3. **Ystyried sut y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn mynd i'r afael, yn benodol, â thlodi gwledig, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu cynlluniau llesiant**

Fel y nodwyd eisoes, ar y cam datblygu hwn, mae'r Cynllun Lles yn targedu gwelliannau ar lefel sirol.

Fodd bynnag, mae'r Asesiad Lles wedi amlygu'r mathau o dlodi a heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu (e.e. tlodi tanwydd, mynediad i wasanaethau, diboblogaeth ac ati).

4. **Archwilio a deall profiadau sefydliadau (cyhoeddus, preifat a trydydd sector) ac unigolion yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant ac effaith bosibl mwy o weithio rhanbarthol yn y dyfodol**

Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynllun lles, bu i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ystyried gwaith partneriaeth rhanbarthol a lleol eraill. Gweler atodiad 1.

Bu i'r Bwrdd hefyd ystyried blaenoriaethau corfforaethol sefydliadau partner i nodi meysydd y gellir cydweithredu ymhellach. Gweler atodiad 2.